Rhif: **WG16527**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

Dyddiad cyhoeddi: **20 Medi 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **1 Tachwedd 2012**

# Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar ddiwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r cynnig i ddiwygio'r trefniadau presennol yn adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu hystyried o dan yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer AAA. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dileu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n ymwneud â lleoli plant â datganiadau AAA mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru, gan y bernir nad oes ei hangen mwyach yng ngoleuni bodolaeth adran 160 o Ddeddf Addysg 2002.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **1 Tachwedd 2012** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael mwy o wybodaeth:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 3003
Ffacs: 029 2080 1044

© Hawlfraint y Goron 2012
WG16527

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 3 |
| Diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 | 5 |
| Plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol | 6 |
| Mesurau diogelu i gefnogi’r cynnig hwn | 7 |
| Atodiad | 11 |

# Rhagair y Gweinidog

Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â symleiddio'r system cofrestru a chymeradwyo i ysgolion annibynnol mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig.

Ein barn ni yw bod trefn adran 347 yn gweinyddu proses sydd erbyn heddiw yn ddiangen ac yn dyblygu'r materion y mae angen eu hystyried wrth wneud cais i gofrestru o dan adran 160.

Rwy'n cynnig diddymu adran 347, gan ddileu'r gofyniad am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru a gosod y ddyletswydd yn gadarn ar awdurdodau lleol sydd eisoes yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc ag AAA. Wrth wneud hynny, rwy'n awyddus i gymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer AAA yn ehangach, sy'n ystyried newid y term AAA a disodli datganiadau AAA gyda system well.

Rwyf hefyd yn cynnig gweithredu mesurau diogelu i gefnogi diddymu adran 347 er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol yn bodoli ac i weithredu atebolrwydd effeithiol mewn achosion prin lle bo plentyn wedi cael ei leoli mewn ysgol annibynnol anaddas.

Rwy'n croesawu'ch safbwyntiau.

**Leighton Andrews AC**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

# Cyflwyniad

Rhaid i ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion â datganiadau AAA gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996. Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno gweithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 160 o'r Ddeddf Addysg.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar y cynnig i ddiddymu adran 347, yng ngoleuni'r darpariaethau presennol o dan adran 160, ac ar y mesurau arfaethedig sydd i'w creu i gefnogi'r newid deddfwriaethol hwn.

Mae'r cynnig i ddiwygio'r trefniadau presennol yn rhoi sylw dyledus i'r newidiadau amserol sy'n cael eu hystyried o dan yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer AAA.

# Cefndir

## Adran 347

Mae Adran 347 (a347) yn ymwneud â lleoli plant â datganiadau AAA mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru. Mae'n darparu am i Weinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol fel un sy'n addas i dderbyn plant y mae datganiadau ar eu cyfer yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol o dan a324.

O dan a347 (5), er mwyn i blentyn gael ei leoli mewn ysgol annibynnol, rhaid bod Gweinidogion Cymru naill ai wedi cymeradwyo'r ysgol fel un addas i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol (a347 (5) (a)) neu mae'n rhaid eu bod wedi cymeradwyo lleoli plentyn penodol mewn ysgol benodol (a347 (5) (b)).

Mae'r meini prawf y mae Gweinidogion Cymru'n eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried cais am gymeradwyaeth wedi'u nodi yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 (SI 1994/6510).

### Y gofrestr ysgolion annibynnol o dan ran 10 o Ddeddf Addysg 2002

Gweinidogion Cymru yw cofrestrydd ysgolion annibynnol yng Nghymru. Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno gweithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru (adran 160 o'r Ddeddf Addysg). Mae'n drosedd i unrhyw berson gynnal ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru. Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys gwybodaeth ragnodedig, gan gynnwys a yw'r ysgol arfaethedig yn bwriadu derbyn disgyblion ag AAA (gyda neu heb ddatganiad).

Mae Adran 160 (a160) yn darparu, pan fo cais yn cael ei wneud i ysgol gael ei chynnwys ar y gofrestr ysgolion annibynnol, bod yn rhaid darparu gwybodaeth benodol gan gynnwys:

- ystod oedran y disgyblion;
- uchafswm y disgyblion;
- p'un a yw'r ysgol i ddisgyblion gwrywaidd neu ddisgyblion benywaidd neu'r ddau;
- p'un a yw'r ysgol yn darparu llety i ddisgyblion;
- p'un a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.[1]

[1] Mae'r adran hon yn cael ei chefnogi gan Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth ganlynol i'r Cofrestrydd (i gael ei nodi ar y ffurflen gais):

- ystod oedran y disgyblion
- uchafswm y disgyblion
- p'un a yw'r ysgol ar gyfer disgyblion gwrywaidd, neu ddisgyblion benywaidd neu'r ddau
- p'un a yw'r ysgol yn darparu llety ar gyfer disgyblion
- p'un a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion ag AAA
- p'un a fydd yr ysgol yn darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer disgyblion ag AAA a'r math o AAA.

Mae a162 yn caniatáu i Weinidogion Cymru dynnu ysgol oddi ar y gofrestr os oes newid sylweddol mewn perthynas â'r ysgol ac nad yw'r newid wedi cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae newid sylweddol yn cynnwys newid mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a restrir uchod.

Caiff ysgolion annibynnol nad ydynt wedi'u cofrestru i dderbyn disgyblion ag AAA wneud cais i Weinidogion Cymru i wneud hynny trwy ofyn am newid sylweddol (a162 o'r Ddeddf Addysg). Ar hyn o bryd gall ysgolion annibynnol hefyd geisio cymeradwyaeth i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol o dan a347 (5) (a).

Os nad oes gan ysgol annibynnol gymeradwyaeth i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol, nid yw rhieni sy'n dewis talu i leoli eu plentyn ag AAA yn yr ysgol annibynnol honno wedi'u rhwymo gan yr un gofynion cyfreithiol ag awdurdodau lleol wrth orfod gwneud cais am gymeradwyaeth i wneud y fath leoliad.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau ar y cynnig i ddileu a347 yng ngoleuni bodolaeth a160 a'r mesurau diogelu arfaethedig eraill y mae'r Llywodraeth yn cynnig eu cyflwyno.

## Diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996

Barn Llywodraeth Cymru yw bod trefn a347 yn gweinyddu proses sydd erbyn heddiw yn ddiangen ac yn dyblygu'r materion y mae angen eu hystyried wrth wneud cais i gofrestru o dan a160.

O ganlyniad i Ddeddf Addysg 2002, gosodwyd safonau uwch i'r sector ysgolion annibynnol yn gyfan, trwy'r Ddeddf ei hun a thrwy reoliadau ategol eraill. Mae'r safonau y bernir pob ysgol annibynnol yn unol â hwy yn awr yn uwch na'r rheiny a nodir yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994. Byddai diddymu a347 yn arwain at ddirymu Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y bydd un system gofrestru o dan bŵer a160 sy'n bodoli eisoes, wedi'i chefnogi gan fesurau diogelu priodol, yn sicrhau mewn modd digonol y bydd ysgolion annibynnol yn bodloni'r safonau ar gyfer eu cofrestru i dderbyn disgyblion ag AAA.

Byddai dileu'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru o dan a347 hefyd yn cynnig cyfle i atgoffa'r awdurdodau lleol bod y cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc â datganiad AAA ar yr awdurdodau lleol eu hunain, o dan eu dyletswydd statudol i ddarparu darpariaeth addysgol briodol.

Byddai awdurdodau lleol yn gallu barnu drostynt eu hunain heb gyfeirio at Lywodraeth Cymru. Ein barn ni yw bod yr awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i ymchwilio'n llawn i'r arbenigedd sydd ar gael mewn ysgol benodol lle cynigir lleoliad er mwyn sicrhau ei fod yn cyfateb i anghenion y plentyn.

Bydd dileu'r broses cymeradwyo'n lleihau biwrocratiaeth i Lywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r rhieni sy'n dymuno apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru am leoli plentyn mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol. Ni fyddai'r diddymiad yn effeithio ar hawliau rhieni i apelio i'r Tribiwnlys.

Mae diddymiad a347 eisoes wedi digwydd yn Lloegr a daeth i rym ar 1 Medi 2009.

Mae Llywodraeth Cymru'n barnu nad oes angen bod â dwy system debyg, ac am y rhesymau a nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig diddymu a347 o Ddeddf Addysg 1996.

## Plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

Mae'r newid deddfwriaethol arfaethedig hwn yn cyd-fynd ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer AAA.

Gellir cael dolen i'r ymgynghoriad ar:
www.wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?skip=1&lang=cy

## Mesurau diogelu i gefnogi'r cynnig hwn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried diddymu a347 o'r blaen fel rhan o'r cynigion ar gyfer Mesur Addysg (Cymru) 2010. Ym mis Hydref 2010, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad oedd yn canolbwyntio ar gynigion y Mesur hwn trwy lythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau at rai â diddordeb yn y mater. Gellir cael dolen i'r ymgynghoriad a'r ymatebion ar www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/proposedmeasure/?skip=1&lang=cy

Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi egwyddor y diddymiad yn gyffredinol, codwyd pryder y byddai'r diddymiad yn dileu rheolaeth ddefnyddiol sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sy'n helpu i sicrhau bod dysgwyr â datganiadau AAA yn cael eu lleoli'n briodol mewn ysgolion annibynnol nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer AAA. Roedd hyn mewn perthynas â Llywodraeth Cymru'n ceisio barn Estyn am briodoldeb y fath leoliad. Y pryder oedd y byddai dileu'r trefniant hwn, heb osod trefniant arall priodol yn ei le, efallai'n gadael rhai dysgwyr agored i niwed mewn perygl o beidio â chael darpariaeth addysgol ddigonol. O ganlyniad, penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddileu'r diddymiad arfaethedig o Fesur Addysg (Cymru) 2010 a gofyn am i ragor o waith gael ei wneud yng nghyd-destun diwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer AAA yn gyffredinol, cyn i ystyriaeth i ddeddfu ar y diddymiad gael ei hailgyflwyno.

Erbyn hyn mae rhagor o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i strwythur newydd i gefnogi'r diddymiad er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol yn bodoli i ddal awdurdodau lleol yn gyfrifol os ydynt yn lleoli plant ag AAA mewn ysgolion annibynnol anaddas sy'n methu â diwallu eu hanghenion penodol. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y mesurau canlynol i helpu i gefnogi'r newid deddfwriaethol hwn:

**Cofrestru ysgolion annibynnol i dderbyn disgyblion ag anghenion ychwanegol**

O dan ein cynigion, bydd pob ysgol annibynnol yn gallu derbyn disgyblion ag anghenion ychwanegol (AAA ar hyn o bryd) sydd heb ddatganiad AAA (neu'r hyn fydd yn cyfateb iddo o dan y diwygiadau arfaethedig).

Bydd yn ofynnol o dan a160 i ysgolion annibynnol gofrestru i dderbyn disgyblion ag anghenion ychwanegol (AY), os yw'r ysgol yn bwriadu darparu ar gyfer disgyblion sydd ag AY sylweddol a/neu ddifrifol, sy'n cyfateb i'r rhai sydd â'r un diogelwch hawliau o dan ddatganiad AAA ar hyn o bryd. Wrth gofrestru, bydd yn ofynnol i'r ysgolion annibynnol ddiffinio'r ddarpariaeth AY a gynigir ganddynt.

Bydd yr ysgolion annibynnol sydd wedi'u cofrestru i dderbyn disgyblion ag AY yn destun ymweliadau monitro blynyddol, yn yr un ffordd â'r ysgolion sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd fel rhai sy'n addas i dderbyn plant gyda datganiadau AAA yn gyffredinol.

Os yw ysgol annibynnol yn dymuno derbyn disgyblion ag AY sydd ag AY sylweddol a/neu ddifrifol ond nad yw wedi'i chofrestru i wneud hynny (h.y. oherwydd bod yr holl ddisgyblion wedi'u lleoli yn yr ysgol o ganlyniad i gymeradwyaeth benodol o dan a347(5)(b)), bydd yn ofynnol iddi wneud cais i Lywodraeth Cymru am **newid sylweddol** o dan ddarpariaeth bresennol a162. Ar ôl cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru o dan a162, caiff yr ysgol annibynnol fwrw ymlaen a derbyn disgyblion ag AY fel y'u diffinnir yn ei chais.

Byddai angen i unrhyw ysgol annibynnol sy'n dymuno ehangu ystod ei darpariaeth AY wneud cais arall am newid sylweddol o dan a162 gan nodi'r maes AY ychwanegol y mae'n bwriadu darparu ar ei gyfer.

Yn ddelfrydol dylai unrhyw gais am newid sylweddol i dderbyn disgyblion ag AY neu i newid yr ystod o AY y darperir ar eu cyfer gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru un tymor cyn i leoliad ddechrau. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i Lywodraeth Cymru ystyried y cais. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff yr awdurdod lleol ddechrau lleoliad ond mae'n rhaid i'r ysgol annibynnol hysbysu Llywodraeth Cymru ar unwaith o hyn a'i bwriad i wneud cais am newid sylweddol. Yna bydd gan ysgolion annibynnol 6 mis o ddechrau'r lleoliad i wneud cais am newid sylweddol a chael eu cymeradwyo. Os yw'r ysgol annibynnol yn methu â chael ei chymeradwyo erbyn diwedd y terfyn 6 mis, rhaid i'r lleoliad ddod i ben. Bydd parhau â'r lleoliad heb y fath gymeradwyaeth yn golygu bod yr ysgol yn torri gofynion ei chofrestriad, a allai arwain at ddileu'r ysgol annibynnol o'r gofrestr.

Bydd angen i ysgolion annibynnol nad ydynt wedi'u cymeradwyo ar gyfer lleoliadau AAA ar hyn o bryd ond sydd eisoes wedi derbyn disgyblion â datganiadau AAA trwy a347 (5) (b) wneud cais am newid sylweddol, gan nodi'r math o AY maent yn darparu ar eu cyfer, fel y nodir uchod.

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu rhestr o ysgolion annibynnol cofrestredig ar ei gwefan, a fydd yn nodi'r ddarpariaeth AY mae'r ysgolion yn ei darparu er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol sy'n lleoli a / neu rieni i ddewis ysgol briodol i blentyn.

**Cyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol ar ysgolion annibynnol**

Cynigir y bydd yna ofyniad i grynodeb o bob adroddiad ar ymweliadau monitro blynyddol a gynhelir gan Estyn ar ysgolion annibynnol sydd wedi'u cofrestru i dderbyn disgyblion ag AY gael ei gyhoeddi ar lein fel y gwneir ar hyn o bryd gydag adroddiadau arolygu pob ysgol.

Ar y cyd gyda'r rhestr o ysgolion annibynnol sy'n darparu ar gyfer AY, bydd y gofyniad hwn yn caniatáu i bob awdurdod lleol, yng Nghymru a thros y ffin, gael gweld gwybodaeth gyfredol am addasrwydd y ddarpariaeth yn yr ysgolion hyn. Bydd yn helpu i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud penderfyniad gwybodus wrth ystyried lleoli plant ag AY yn yr ysgolion annibynnol hyn.

Bydd y gofyniad hwn hefyd yn caniatáu i rieni gael gwybodaeth gyfredol am addasrwydd y ddarpariaeth yn yr ysgolion hyn ac unwaith eto eu helpu i benderfynu a fyddent yn dymuno lleoli eu plentyn yn yr ysgol honno.

Yn ychwanegol at hyn, bydd Estyn yn parhau i gyflwyno adroddiadau llawn ar ymweliadau monitro blynyddol i Lywodraeth Cymru. Mewn achosion lle bo'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw ddiffygion o ran bodloni safonau cofrestru, bydd gan Lywodraeth Cymru'r pŵer o dan y ddeddfwriaeth bresennol i weithredu ar fethiant i fodloni safonau cofrestru. Gall hyn gynnwys y pŵer i roi rhybudd i berchennog yr ysgol annibynnol i gyflwyno cynllun gweithredu yn nodi'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni'r safon/au neu hyd yn oed penderfynu y dylid tynnu'r ysgol oddi ar y gofrestr.

Mae templed enghreifftiol o grynodeb o ymweliad monitro blynyddol a gâi ei gyhoeddi ar lein wedi'i amgáu yn atodiad 1 i'r ddogfen ymgynghori hon.

**Cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a pherchnogion ysgolion annibynnol**

Mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn bodoli eisoes mewn perthynas â phlant yn gyffredinol a phlant ag AAA yn benodol ac maent yn cynnwys:

- canfod, asesu a sicrhau darpariaeth briodol i ddisgyblion ag AAA (adrannau 321 a 323 o Ddeddf 1996)
- cynhyrchu datganiad AAA yn nodi'r ddarpariaeth y mae ei hangen a'r math o ysgol mae'r awdurdod yn barnu y byddai'n briodol (adran 324 o Ddeddf 1996)
- rhaid iddo gydymffurfio â chais gan riant am le mewn ysgol a gynhelir (adran 316 o Ddeddf 1996 ac atodlen 27 i'r un Ddeddf)
- rhoi mynediad i safle unrhyw ysgol (gan gynnwys ysgol annibynnol) i'r awdurdod lleol at ddiben monitro'r ddarpariaeth AAA i blentyn y mae'r awdurdod lleol yn cynnal datganiad iddo (a327 o Ddeddf 1996)
- adolygu'r datganiad AAA o leiaf bob blwyddyn (adran 328 o Ddeddf 1996)
- darparu ar gyfer datrys anghydfodau rhwng rheini ac (ymysg pethau eraill) yr awdurdod neu ysgol annibynnol (adran 332B o Ddeddf 1996)
- rhoi sylw i hybu diogelu a lles disgyblion (adran 175 o Ddeddf 2002)
- os yw plentyn yn derbyn gofal, mae'n ofynnol i swyddog adolygu annibynnol adolygu cynllun gofal yr awdurdod lleol (mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth addysg) o leiaf bob chwe mis [2].

[2] Gweler rheoliad 4 o Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

Cynigir y bydd y canllawiau'n nodi'n glir beth yw hawliau, swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, rhieni ac ysgolion annibynnol. Er y byddai'r canllawiau'n anstatudol, byddant yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth bresennol (fel uchod) sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysgol i blant ac at y safonau ar gyfer cofrestru ysgolion annibynnol. Byddai'r canllawiau hyn hefyd yn atgoffa awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol am y dyletswyddau sydd arnynt eisoes mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysgol i blant a byddant hefyd yn cyfeirio at bwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r fath ddyletswyddau.

# Atodiad

## Ymweliad: Monitro blynyddol/monitro ôl a163 o ysgolion arbennig annibynnol cofrestredig

| | |
|---|---|
| Ysgol | |
| Rhif yr ysgol | |
| Diben yr ymweliad | |
| Dyddiad yr ymweliad | |
| AEM/Arolygydd Ychwanegol | |
| Pennaeth | |
| Perchennog | |
| Nifer y staff | |
| Nifer y disgyblion | |
| Darpariaeth | |
| Math o anhawster dysgu mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer | |
| Arolygiad Adran 10/163 diwethaf | |
| Arolygiad diwethaf gan AEM | |
| Ymweliad diwethaf gan AGGCC | |

**Prif ganfyddiadau**

**1. Cryfderau**
Defnyddir yr adran hon i adrodd ar y cryfderau a nodir trwy’r ymweliad.

**2. Materion sy’n codi a/neu feysydd i’w datblygu**
Defnyddir yr adran hon i:

- adrodd ar unrhyw faterion eraill sy’n codi yn ystod ymweliad sy’n ddigon arwyddocaol i arwain at argymhelliad newydd;
- tynnu sylw at unrhyw newidiadau sylweddol (e.e. i’r safle, perchnogion) ac amrywiadau arwyddocaol yn anghenion y disgyblion mewn perthynas â’r mathau o anawsterau dysgu y mae’r ysgol wedi’i chofrestru ar eu cyfer, os yw’n berthnasol; a

- nodi unrhyw faterion mae'n werth eu cofnodi ond nad ydynt yn galw am weithredu gan yr ysgol. (Gallai hyn gynnwys agor cyfleusterau newydd, newidiadau i'r cwricwlwm neu newidiadau i staffio'r ysgol).

## 3. Argymhellion

Bydd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn cael ei gynnwys bob amser fel mater allweddol i weithredu arno.

Os oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn bodloni unrhyw un o'r gofynion rheoliadol, mae'n rhaid i'r adran hon gynnwys y datganiad canlynol:

- Dylai'r ysgol gymryd camau i gydymffurfio'n llawn â'r gofynion rheoliadol ar gyfer Safonau 1/2/3/4/5/6/7 (dileer fel bo'n briodol), fel y'u rhestrir isod.

Gallai materion allweddol eraill gynnwys rhagor o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau A163/monitro blaenorol.

### Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

Fel arfer bydd ymweliadau'n canolbwyntio ar argymhellion o'r arolygiad monitro neu'r arolygiad Adran 163 blaenorol. Dim ond **crynodeb** o'r cynnydd fydd yr adran hon yn ei ddarparu. Defnyddir y gosodiadau isod:

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn gan fwyaf

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol

Ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn

Ni fydd angen dilyn i fyny ar argymhellion yr aethpwyd i'r afael â hwy'n llawn mewn ymweliadau dilynol.

**Argymhelliad 1:**

**Sylwebaeth:**

**Argymhelliad 2:**

**Sylwebaeth:**

**Argymhelliad 3:**

**Sylwebaeth:**

**Ac ati.**

**Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru**

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch y disgyblion**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a'r staff**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai’r ysgol:

**Safon 5: Tir ac adeiladau a llety byrddio mewn ysgolion**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai’r ysgol:

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai’r ysgol:

**Safon 7: Y ffordd y mae’r ysgol yn ymdrin â chwynion**

Naill ai

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

Neu

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai’r ysgol.

**Argymhellion ynglŷn â chofrestru**

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau rhoi sylw i'r argymhelliad canlynol:

Naill ai

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Neu:

- nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hynny, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ar gyfer pob safon.

Ac:

Ni ddylai barnau'r arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn ragfarnu canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.